CARDIFF SCHOOL of ART & DESIGN

# Cyfathrebu Graffig

# Briff Aseiniad Prosiect yr Haf

| Cod y Modiwl | Teitl y Modiwl |
|---|---|
| Prosiect Cyn Cyrraedd | Prosiect yr Haf |

| Blwyddyn academaidd | Semester |
|---|---|
| 2023/24 | Cyn-semester/tymor Un |

**E-bost Arweinydd y Prosiect**

dwrenne@cardiffmet.ac.uk

# Manylion Asesu

| | | |
|---|---|---|
| 'Fi fy hun a Minnau' | WRIT1 | Dd/B |

**Cyd-destun: Cyfathrebu Graffig:** Er mwyn i ni ddod i'ch adnabod ychydig yn well, ac er mwyn i'ch cyd-fyfyrwyr fedru hefyd, hoffem i bob un ohonoch gwblhau'r prosiect haf byr hwn yn ystod eich gwyliau. Gofynnwn i chi gyflwyno eich canlyniad i'ch cyfoedion a'ch tiwtoriaid.

**Briff:**

Hoffem i bob un ohonoch baratoi cyflwyniad byr (2 funud fan bellaf) fydd yn dweud ychydig wrthym amdanoch chi fel y byddwn yn gallu dod i'ch adnabod ychydig yn well.

Dewch â'ch cyflwyniad, y dylid ei gadw fel ffeil PDF, gyda chi ar eich diwrnod cyntaf i'n prifysgol.

Dylai pob un o'ch sleidiau / delweddau unigol ateb y cwestiynau canlynol:

1. **Pwy sy'n eich ysbrydoli chi?** Gall hwn fod yn ddylunydd, darlunydd, ffotograffydd, artist, teipograffydd ac ati, a rhowch wybod i ni pam ei fod yn eich ysbrydoli chi!
2. **Dywedwch rywbeth diddorol amdanoch eich hun.** Beth ydych chi'n angerddol amdano? Ydych chi wedi teithio'r byd neu a ydych chi'n dwli ar bobi cacennau Battenberg? Rydym am gael gwybod mwy amdanoch chi fel unigolyn!
3. **Dangoswch sleid i ni o'ch hoff ddarn o waith** a grëwyd gennych hyd yn hyn a rhowch wybod i ni pam mai hwn yw eich hoff ddarn!
4. **Gwerthwch un fatsien i ni.** Rhowch froliant cyflym i ni gan gynnwys delwedd neu ddau, ynghlyn â pham y dylem brynu eich matsien chi yn hytrach na rhai eraill. Mae deall pwynt gwerthu unigryw cynhyrchion yn rhan fawr o frandio. Pam fyddai unrhyw un am brynu un fatsien? Gwerthwch y syniad mawr i ni.

Bydd aelodau'r tîm addysgu Cyfathrebu Graffig yn cyflwyno hefyd — er mwyn i chi all dod i'n hadnabod ni'n well hefyd!

Os oes angen unrhyw help neu gyngor arnoch ar sut i gwblhau'r dasg hon, anfonwch e-bost at ein tîm gweinyddu ysgol yn nodi enw'r cwrs rydych chi ar fin ymuno ag ef a'r cwestiynau rydych chi am eu gofyn i'r cyfeiriad e-bost canlynol: csadadmin@cardiffmet.ac.uk

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weld eich canlyniadau!

| | |
|---|---|
| Y Tîm Dylunio Graffig, 2023. | |
| **Cyflwyniad** | • **Dewch â'r prosiect gyda chi ar gyfer dechrau'r Wythnos Croeso ddydd Llun 18 Medi** |
| | |

# Nodiadau:

Gallwch ddefnyddio'r dudalen wag hon i wneud eich nodiadau eich hun:

CARDIFF
SCHOOL *of* ART & DESIGN